Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	23 Tachwedd 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	y Cyng. Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Awdur yr Adroddiad	Steve Gadd
Teitl	Y Broses Gyfalaf a dyfodol y Grŵp Buddsoddi Strategol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar y broses gosod cyllideb gyfalaf newydd arfaethedig a'r newidiadau drafft i'r Cylch Gorchwyl ac enw'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Rhoi cyfle i'r pwyllgor wneud sylwadau ar y broses gyfalaf ddrafft newydd a'r Grŵp Craffu Cyfalaf newydd arfaethedig cyn gwneud y newidiadau ffurfiol gofynnol. Dylid nodi fod yr un cynigion drafft yn cael eu cyflwyno i'r Briff Cabinet ar 14 Tachwedd a bydd diweddariad ar lafar o ganlyniad y cyfarfod hwnnw yn cael ei roi i'r pwyllgor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y pwyllgor yn adolygu ac yn trafod y papur a gyflwynir a datgan eu bod yn hapus ai peidio i symud ymlaen gyda'r ymgynghoriad a'r broses gwneud penderfyniad.

3.2. Bod y Cabinet yn trafod ac yn gwneud sylwadau neu argymhellion ar y newidiadau arfaethedig i'r broses gyfalaf a'r cylch gorchwyl a all gael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae dyfodol y broses gyfalaf a'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi bod yn flaenoriaeth am y 18 mis diwethaf. Er y gobeithiwyd y byddai cynnig yn barod dros yr haf, mae'n bwysig ein bod yn cael hyn yn iawn. Yr egwyddorion arweiniol y tu ôl i'r adolygiad yw:

- Mae'r Grŵp Gwella Gwasanaeth (aelodaeth y meinciau cefn) wedi mynegi pryderon am eu rôl wrth wneud penderfyniadau allweddol - cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried yn yr adolygiad.
- Yr angen am lywodraethu cryf o ran y ffordd rydym yn dyrannu a chymeradwyo adnoddau cyfalaf
- Craffu ar benderfyniadau - gan gynnwys adolygiad o benderfyniadau/prosiectau blaenorol er mwyn dysgu o brofiad
- Symleiddio'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer cynlluniau wedi'u hariannu gan grantiau lefel isel
- Ceisio cydamseru'r prosesau achos busnes ar gyfer prosiectau cyfalaf a phrosesau rheoli prosiect ehangach y Cyngor (trwy'r defnydd o Verto)
- Mynd i'r afael â'r cymorth sydd ei angen ar gyfer gweinyddiaeth iawn o'r prosesau

4.2 Mae mwyafrif manylion y cynigion wedi'u cynnwys yn y Cylch Gorchwyl drafft a'r atodiad sydd wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 yn yr adroddiad hwn. Prif bwyntiau'r cynnig yw:

- Bydd grŵp newydd yn cael ei greu sef y Grŵp Craffu Cyfalaf - bydd y grŵp yn craffu ar achosion busnes a chyllidebau cyfalaf ond ni fyddai'r penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud gan y grŵp hwn. Bydd barn y Grŵp Craffu Cyfalaf yn cael ei ystyried gan y cyrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau fel y nodir isod.

- Mae aelodaeth meinciau cefn y Grŵp Craffu Cyfalaf wedi cael ei gadw fel enwebiadau'r Pwyllgor Craffu - croesawir barn y Cabinet ar y mater hwn

- Mae cyfansoddiad y cyngor yn caniatáu i'r Cabinet gymeradwyo cynlluniau cyfalaf unigol, ond mae angen cymeradwyaeth y Cyngor llawn ar gyfer y Cynllun Cyfalaf blynyddol (Siart B).

- Gall Tîm Gweithredol y Cyngor gymeradwyo cynlluniau o dan £1miliwn os yw'r Grŵp Craffu Cyfalaf wedi cofnodi eu cefnogaeth (Siart C).

- Mae'n ofynnol i'r Cabinet wneud y penderfyniad terfynol ar holl gynlluniau dros £1miliwn (Siart C).

- Gall gynlluniau o dan £1miliwn, na chânt eu cefnogi gan y Grŵp Craffu Cyfalaf, gael eu dwyn ymlaen gan y Pennaeth Gwasanaeth i'r Cabinet ar gyfer penderfyniad terfynol os na ellir cyrraedd cytundeb (Siart C)

- Nid oes angen i gynlluniau o hyd at £0.250 miliwn a gyllidir gan grant yn ystod y flwyddyn, fynd trwy'r Grŵp Craffu Cyfalaf, a gallent gael eu cymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth, y Cyfarwyddwr perthnasol a'r Pennaeth Cyllid.

- Mae angen mwy o waith ar fanylion y broses a ffurflenni ceisiadau cyfalaf. Y nod yw y bydd angen i holl brosiectau cyfalaf gwblhau ffurflenni prosiect Verto - ond yn y dyfodol bydd y rhain yn cynnwys yr holl wybodaeth ychwanegol sydd ei angen i wneud penderfyniadau ar achosion busnes cyfalaf. Mae hwn yn brosiect parhaus a bydd canllawiau gweithredol manwl yn cael eu datblygu erbyn y gwanwyn.

- Y cynnig yw y bydd y Grŵp Craffu Cyfalaf a'r Bwrdd Cyllideb yn cael eu cefnogi gan y tîm Gwasanaethau Pwyllgorau o fis Ebrill 2023. Mae trafodaethau wedi bod yn digwydd ar y mater hwn ac mae trefniadau wedi cael eu cytuno mewn egwyddor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae nifer o flaenoriaethau'r Cyngor angen buddsoddiad cyfalaf er mwyn eu cyflawni. Mae'r cynnig yn nodi proses glir a chadarn er mwyn sicrhau fod penderfyniadau yn fforddiadwy ac yn cael eu gweld yng nghyd-destun ehangach fforddiadwyedd ac adnoddau sy'n cystadlu.

5.2. Mae cael proses gosod cyllideb cyfalaf gadarn er mwyn gosod cyllideb bob blwyddyn yn brif ddyletswydd i'r Cyngor ac mae'n hanfodol er mwyn sicrhau llywodraethu da'r Cyngor, fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol newydd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd pob achos busnes yn nodi goblygiadau ariannol y prosiectau unigol.

6.2. Bydd y cynnig yn effeithio ar adnoddau'r Gwasanaethau Pwyllgorau – fodd bynnag mae Cyllid wedi cytuno i ariannu unrhyw bwysau o gronfeydd wrth gefn y gwasanaeth hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Yng ngoleuni Adran 151 nid oes angen asesiad o'r effaith ar les ar y cam hwn, gan fod hyn yn cynnwys prosesau mewnol yn unig.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r cynigion wedi cael eu trafod gyda swyddogion allweddol gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Busnes. Dylid nodi'r llwybr gwneud penderfyniad canlynol:

- Cyfarfod Briffio'r Cabinet - 14 Tachwedd
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - 23 Tachwedd
- Adroddiad penderfyniad terfynol i'r Cabinet ym mis Rhagfyr
- Bydd adroddiad i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cael ei drefnu os fydd y Cabinet yn cytuno symud ymlaen
- Ymgynghori gydag aelodaeth ehangach y Cyngor
- Bydd y cynigion hefyd yn gofyn am newidiadau i'r Cyfansoddiad (gan gynnwys Rheolau Gweithdrefn Ariannol) a fydd yn cael eu datblygu os fydd y Cabinet yn cytuno mewn egwyddor. Mae newidiadau i'r Cyfansoddiad yn cael eu cytuno bob blwyddyn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Gobeithir y bydd y prosesau arfaethedig yn sicrhau y bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â strategaethau a phrosiectau cyfalaf yn fwy tryloyw, strategol ac effeithlon. Y gobaith yw y bydd mwyafrif y ceisiadau yn dod drwy'r broses cyllideb cyfalaf blynyddol, fel y gellir asesu ceisiadau sy'n cystadlu yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael, yn hytrach na gwneud penderfyniadau unigol. Fodd bynnag, bydd angen penderfyniadau yn ystod y flwyddyn bob amser, ac mae'r broses yn caniatáu craffu iawn ar y penderfyniadau hynny.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Gall y risg o beidio â chael proses gytunedig i ddatblygu, asesu a chraffu ar ofynion cyfalaf y Cyngor arwain at benderfyniadau is-optimaidd.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.